**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**4 HYDREF 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 4 Hydref 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau lleol:
Cynghorydd Geoff Collett ar gyfer eitem rhif 6.10 (056742) ar y rhaglen
Cynghorydd Gladys Healey ar gyfer eitemau rhif 6.4 (056859) a 6.12 (057225) ar y rhaglen.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Gynllunwyr; Uwch Gyfreithiwr a Swyddog Pwyllgorau.

Dywedodd y Cyfreithiwr ei fod wedi cael gwybod bod y Cynghorydd Geoff Collett am siarad fel Aelod Lleol ar eitem rhif 6.10 ar y rhaglen a bod y Cynghorydd Gladys Healey am siarad fel Aelod Lleol ar eitemau rhai 6.4 a 6.12 ar y rhaglen. Defnyddiodd y Cadeirydd ei ddisgresiwn i ganiatáu i'r Cynghorydd Healey siarad ar eitemau rhif 6.4 a 6.12 ar y rhaglen.

## 29. DATGAN CYSYLLTIAD

Dywedodd y Cynghorydd David Evans ei fod am siarad fel Aelod Lleol yn unig, ar eitem rhif 6.5 ar y rhaglen – Cais Llawn - newid defnydd o C3 i C4 i Dŷ Amlfeddiannaeth (bach) 4 ystafell wely ar 8 Wellington Street, Shotton, Glannau Dyfrdwy, (057129) ac eitem rhif 6.11 ar y rhaglen – Cais Llawn – Codi 5 annedd ar 120 Shotton Lane, Shotton, (057115). Dywedodd y Cynghorydd Evans ei fod am siarad ar yr eitemau a gadael yr ystafell ar ôl siarad a chyn i drafodaeth ddigwydd.

Dywedodd y Cynghorydd Sean Bibby ei fod wedi cyflwyno gwrthwynebiad ffurfiol o ran eitem rhif 6.11 ar y rhaglen a byddai'n gadael yr ystafell cyn i'r cais gael ei drafod a chyn i bleidlais gael ei chynnal ar yr eitem.

Eglurodd y Cynghorydd Christine Jones ei bod wedi cael cyngor cyfreithiol o ran eitem rhif 6.9 ar y rhaglen - Cais Llawn - Codi adeilad gofal ychwanegol 4 llawr i gynnwys 44 rhandy un ystafell wely ac 11 rhandy dwy ystafell wely gyda llety ategol yn Ysgol Fabanod Perth y Terfyn, Halkyn Road, Treffynnon, (057261), a dywedodd er nad oedd ganddi gysylltiad personol nac sy'n rhagfarnu, roedd wedi cefnogi'r cais yn gyhoeddus ac felly byddai'n gadael yr ystafell wrth i drafodaeth a phleidlais ar y cais ddigwydd.

Dywedodd y Cynghorydd Adele Davies-Cooke, ar ôl iddi gael cyngor cyfreithiol, byddai'n siarad fel Aelod lleol yn unig ar eitem rhif 6.3 ar y rhaglen – Cais Llawn ar gyfer tynnu Amod Rhif 6 (mynediad dros dro) ac amrywio Amod Rhif 8 (oriau agor) yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio 056664 yn Fferm Coppy, Cilcain Road, Gwernaffield (057296) a byddai'n gadael yr ystafell ar ôl siarad a chyn i'r eitem gael ei thrafod.

Datganodd y Cynghorydd Geoff Collett gysylltiad personol ag eitem rhif 6.10 ar y rhaglen Cais Llawn – datblygiad Preswyl ar gyfer 160 o anheddau a gerddi cysylltiedig a maes parcio ym Maes Gwern, yr Wyddgrug, (056742), a dywedodd ei fod wedi cael goddefeb i siarad am 5 munud a byddai'n gadael yr ystafell cyn i'r eitem gael ei thrafod a chyn i bleidlais ddigwydd.

## 30. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi'u hatodi wrth y rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4188&Ver=4&LLL=0

Late Observations - Planning 04.1017

## 31. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Medi 2017.

Cywirdeb

Tudalen 7: Cynghorydd Patrick Heesom – cyfeiriodd at gais 056694 a dywedodd fod pedwar rheswm wedi'u rhoi dros wrthod y cais.  Gofynnodd bod y cofnodion yn cael eu diwygio i gynnwys y rhesymau ychwanegol pam mae'r cynnig yn cynrychioli niwed sylweddol, gan danseilio polisïau lleol a chenedlaethol sydd wedi'u dylunio i ddiogelu cefn gwlad agored a chymunedau gydag agweddau gwledig a'r effaith wrth ddynesu at yr anheddiad.  Byddai'r cynnig hefyd yn erydu'r cymeriad gwledig a golwg y safle a'r ardal leol gyda'r niwed o ganlyniad i gymeriad a golwg y rhan hon o'r anheddiad.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Patrick Heesom, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 32. EITEMAU I'W GOHIRIO

Argymhellodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) fod eitem rhif 6.8 ar y rhaglen – Cais Amlinellol – ar gyfer Codi 10 o Anheddau yn Siglen Uchaf, Ffordd Rhuthun, Gwernymynydd yn cael ei ohirio.  Eglurodd fod rhai pryderon wedi'u codi yn ystod yr ymweliad safle o ran gwelededd y briffordd ac adroddodd

y swyddog am hyn wrth yr asiantaeth priffyrdd. Gan fod yr Asiantaeth wedi gofyn am ragor o amser i ystyried y gwelededd digonol ar y safle, ailadroddodd y Prif Swyddog ei argymhelliad i ohirio'r eitem nes i'r Asiantaeth ddarparu adborth.

Ar ôl pleidleisio, gohiriwyd yr eitem.

**PENDERFYNWYD:**

Bod eitem rhif 6.8 ar y rhaglen – Cais Amlinellol – ar gyfer Codi 10 o Anheddau yn Siglen Uchaf, Ffordd Rhuthun, Gwernymynydd yn cael ei ohirio.

**33. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'u dangosir ar y rhestr Ceisiadau Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad gan gynnwys y penderfyniadau apêl.

**34. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 14 aelod o'r cyhoedd a dim aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 4.58pm)

…………………………………………
**Cadeirydd**

Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio yn cael eu gweddarlledu a gellir eu gweld drwy fynd i'r llyfrgell gweddarllediadau yn: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 4 HYDREF 2017**

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 057263 | Cyngor Tref y Fflint | Cais Llawn – Codi unedau manwerthu newydd gyda mynediad cysylltiedig, maes parcio, trefniant gwasanaethu a thirlunio, a diwygiadau i'r maes parcio presennol yng Nghanolfan Chwaraeon Pafiliwn Y Fflint, Earl Street, Y Fflint. | Siaradodd Asiant yr ymgeisydd, Mr. K. Jones, o blaid y cais hwn. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. . |
| 057316 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais Llawn – Codi dau annedd preswyl ar wahân ar dir cyfagos i Groomsdale Cottage, Groomsdale Lane, Penarlâg. | | Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057296 | Cyngor Cymuned Gwernaffield | Cais i dynnu Amod Rhif 6 (mynediad dros dro) ac amrywio Amod Rhif 8 (oriau agor) yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio 056664 yn Fferm Coppy, Cilcain Road, Gwernaffield. | Siaradodd Mr. R. Lloyd yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Adele Davies-Cooke, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais ac yna gadawodd yr ystafell ar ôl gorffen. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 056859 | Cyngor Cymuned yr Hob | Cais Llawn – Codi annedd ar wahân a garej yn The Spinney, Huxleys Lane, Yr Hob. | Siaradodd Mr. B. Miller yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr. D. Cooper, yr Ymgeisydd, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | Siaradodd y Cynghorydd Gladys Healey, fel aelod Lleol, yn erbyn y cais. | |
| 057129 | Cyngor Tref Shotton | Cais Llawn - newid defnydd o C3 i C4 i Dŷ Amlfeddiannaeth (bach) 4 ystafell wely ar 8 Wellington Street, Shotton. | Siaradodd Mr. M. Lakhani, yr Ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd David Evans, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais ac yna gadawodd yr ystafell ar ôl gorffen. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog, ac yn amodol ar amod ychwanegol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno manylion cyfleusterau biniau ac ailgylchu i'r Cyngor a'u cytuno yn ysgrifenedig gan y Cyngor. |
| 057318 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn – Colofn un haen Jupiter 17.5 m ar sylfaen gwraidd D6 a gwaith cysylltiedig yn Muirfield Road, Bwcle. | Siaradodd Asiant yr ymgeisydd, Mr. K. Zanft, o blaid y cais hwn. | Gohiriedig. |
| 057070 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais Llawn – Codi estyniad unllawr i ochr a chefn annedd yn 18 Moorfield Road, Penarlâg. | Siaradodd Mr. M. Wasbrook yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mrs. J. Clarke, yr Ymgeisydd, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 053325 | Cyngor Cymuned Gwernymynydd | Cais Amlinellol ar gyfer codi 10 o anheddau yn Siglen Uchaf, Ffordd Rhuthun, Gwernymynydd. | Gohiriedig. | Gohiriedig. |
| 057261 | Cyngor Tref Treffynnon | Cais Llawn – Codi adeilad gofal ychwanegol 4 llawr i ddarparu ar gyfer 44 rhandy un ystafell wely ac 11 rhandy dwy ystafell | Gadawodd y Cynghorydd Christine Jones yr ystafell cyn i drafodaeth a phleidiais gael eu cynnal ar yr eitem. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | wely gyda llety ategol yn Ysgol Fabanod, Perth y Terfyn, Halkyn Road, Treffynnon. | Siaradodd Mr. L. Reeves, yr Ymgeisydd, o blaid y cais. | |
| 056742 | Cyngor Tref yr Wyddgrug | Cais Llawn - Datblygiad preswyl ar gyfer 160 o anheddau a gerddi cysylltiedig a maes parcio ym Maes Gwern, Yr Wyddgrug. | Siaradodd y Cynghorydd A. Parry, Cyngor Tref yr Wyddgrug, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Geoff Collett, fel aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Gohiriedig. |
| 057115 | Cyngor Tref Shotton | Cais Llawn - Codi 5 annedd yn 120 Shotton Lane, Shotton. | Siaradodd y Cynghorydd David Evans, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais ac yna gadawodd yr ystafell ar ôl gorffen.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd Sean Bibby yr ystafell cyn i drafodaeth a phleidlais ar y cais gael eu cynnal. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057225 | Cyngor Cymuned yr Hob | Cais Llawn – Estyniad llawr dwbl arfaethedig i'r cefn ac addasiadau mewnol yn 13 Kiln Lane, Yr Hob. | Siaradodd Mrs. K. McGorian yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Gladys Healey, fel aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| **Penderfyniadau Apeliadau** | | | | |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 051143 | Amh. | Apêl gan Nant y Ffrith Energy Limited yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer codi tyrbin gwynt hyd at uchder brig fertigol o 77 m gyda phad craen cysylltiedig, adeilad is-orsaf, ffurfio trac newydd a chyffordd fynediad newydd oddi ar ffordd ddi-ddosbarth a darparu cwrt adeiladu dros dro yn Fferm Mount, Ffrith – **DIYSTYRU**. | Amh. | Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl hon. |
| 055579 | Amh. | Apêl gan Mrs Hannah Fargher yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd i dŷ amlfeddiannaeth yn 24 The Brackens, Bwcle – **CANIATAWYD**. | Amh. | Nodi penderfyniad yr Arolygydd i ganiatáu'r apêl hon. |
| 056672 | Amh. | Apêl gan A. Fryer a J. Phillips yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer y cais amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl yn Bryn y Baal Road, Bryn y Baal, yr Wyddgrug – **DIYSTYRU**. | Amh. | Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl hon. |
| 056043 | Amh. | Apêl gan Lloyd Homes yn erbyn | Amh. | Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer codi 8 annedd, garejys a mynediad cysylltiedig yn Llwyn Onn, Licswm – **DIYSTYRU**. | | yr apêl hon. |